tai pawb

CARTREF I BAWB

STRATEGAETH 2021 – 2026

Dychmygwn Gymru ble mae gan bawb yr hawl i gartref da.

Mae gormod o bobl yng Nghymru nad oes ganddyn nhw rywle i fyw yn ddiogel, mewn heddwch a gydag urddas.

Mae gormod o bobl yn wynebu rhagfarn systemig, gwahaniaethu ac anfantais wrth geisio cael llety addas.

Rydym ni'n benderfynol o newid hynny.

Mae ein strategaeth bum mlynedd newydd ar gyfer 2021–2026 yn datblygu ar ein gwaith hyd yma ac mae ei amcanion wedi'u seilio ar ymgysylltu'n helaeth gydag aelodau a rhanddeiliad ynghylch y prif heriau a wynebwn wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno'r ffordd y byddwn yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru drwy barhau â'n gwaith gydag aelodau, partneriaid a chymunedau i gael dylanwad sylfaenol ar benderfyniadau ar y lefel uchaf a chreu newid ar lawr gwlad.

Wrth wneud hynny byddwn...

Yn Ddewr ac yn Ddyfalbarhaus

Wrth ein herio ni'n hunain ac eraill i wneud yn well.

Â Meddwl Agored a Chynhwysol

Wrth wneud yn siŵr ein bod yn gwrando, yn ymateb ac yn ymgysylltu â phobl amrywiol.

Yn Onest ac yn Garedig

Wrth sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu yn y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith.

LLUNIO'R NEWID

GWEITHREDU'R NEWID

CYNRYCHIOLI'R NEWID

LLUNIO'R NEWID

Fe wnawn bopeth y gallwn i ddeall mwy ar yr heriau sy'n wynebu cymunedau amrywiol a bachu ar gyfleoedd i hybu cydraddoldeb. Fe ddefnyddiwn ein llwyfan i gydgynhyrchu atebion a dylanwadu ar benderfynwyr.

Ymgyrchu am hawl gyfreithiol i gartref yng Nghymru

Fe rown adnoddau i'n hymgyrch 'Cefnogi'r Bil' i ddatblygu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Gan weithio gyda'n partneriaid, fe wnawn gryfhau ein sylfaen ymchwil ac ehangu ein hymgysylltu â rhanddeiliaid i greu mudiad, dylanwadu a gweithio gyda phenderfynwyr i sefydlu hawl gyfreithiol i gartref yng Nghymru.

Helpu i greu Cymru wrth-hiliol

Fe wnawn ddatblygu ar ein hadduned 'Gweithredu, nid Geiriau' i weithio gyda mudiadau a phobl sydd â phrofiad bywyd i fynd i'r afael â hiliaeth. Fe wnawn weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol cenedlaethol i gyflawni newid ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig drwy helpu i wreiddio gwrth-hiliaeth mewn diwylliant, strategaeth ac arfer. Fe wnawn gynyddu amrywiaeth ethnig yr ystod o bobl rydym yn gweithio gyda nhw: ein tîm, ein harbenigwyr cyswllt, aelodau sy'n rhan o lunio ein cynnig, a'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw.

Hyrwyddo hawliau tai pobl ddigartref

Fe ddefnyddiwn ein sylfaen ymchwil i weithio gyda phartneriaid i wella mynediad pobl anabl at dai cymdeithasol a gwneud y system addasiadau'n fwy cydradd. Fe wnawn weithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd i gynyddu'r ddarpariaeth a'r safonau sydd ynghlwm â thai hygyrch.

Hybu hawliau LHDTQ+

Fe wnawn ddatblygu ar ein gwaith hyd yma ar amlygu materion ac atebion cadarnhaol ar gyfer pobl LHDTQ+ yn y maes tai yng Nghymru. Fe wnawn ganolbwyntio'n arbennig ar hyrwyddo cynhwysiant pobl draws a materion pobl LHDTQ+ hŷn mewn tai/gofal arbenigol, gan weithio gyda phartneriaid i gynyddu'r wybodaeth ynghylch arfer da yn y meysydd hyn.

Hyrwyddo hawliau cyfartal i bobl ddigartref a phobl mewn sefyllfa fregus o ran tai

Gan weithio gyda phartneriaid digartrefedd a ffoaduriaid, fe wnawn hybu datblygiad atebion tai arloesol ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gael eu statws a chyda'r rhai na chânt ofyn am arian cyhoeddus. Fe wnawn weithio ar fynd i'r afael ag ecsbloetiaeth rywiol sy'n gysylltiedig â thai, a datblygu gwell atebion i'w daclo, ac fe eiriolwn dros gydraddoldeb yn yr agenda trawsnewid digartrefedd.

Eirioli ar gyfer ymateb cydradd i'r argyfwng hinsawdd

Gan weithio gydag aelodau ac eraill, fe wnawn lywio datblygiadau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio tai a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan dynnu sylw at gyfleoedd i hybu cydraddoldeb. Fe wnawn ddatblygu ar 'LLORIAU', ein hadroddiad ar y cyd rhwng Tai Pawb a TPAS Cymru a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol i roi'r argymhellion ar waith.

GWEITHREDU'R NEWID

Rydym am gyfuno ein harbenigedd unigryw, profiad bywyd amrywiol, cryfder y sector ac arfer ardderchog i wella'r hyn a gynhigiwn i aelodau. Fe wnawn weithio'n llawer agosach â phobl i'w helpu i droi ymrwymiadau'n weithredoedd. Dros y bum mlynedd nesaf, fe wnawn:

Ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein Dyfarniad QED trawsnewidiol

Gan barhau'r cynnydd gwych a wnaed eisoes ar ymwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymysg y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig cyfranogol, a datblygu ei ail gam. Fe fyddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd a'r effeithiau a gafwyd i helpu i wella mwy ar wasanaethau i denantiaid amrywiol yn ogystal â chryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector.

Canolbwyntio ar newid diwylliannol

Fe wnawn ailfodelu ein pecyn cefnogi aelodau a datblygu atebion newydd ar gyfer cefnogi newid ymddygiad a diwylliannol cadarnhaol ac arweinyddiaeth mewn mudiadau. Fe wnawn ddatblygu ar y dysgu sefydliadol a ddaeth yn sgil Covid-19 i greu mannau diogel lle caiff pobl gysylltu a meithrin newid drwy sgyrsiau a dysgu ar y cyd. Byddwn yn cynyddu'r hyn a gynhigiwn yn ddigidol, yn cynnwys e-ddysgu.

Ehangu ein neges

Fe wnawn ehangu ac amrywio cyrhaeddiad ac effaith ein digwyddiadau, ein cyfathrebu a'n marchnata. Fe ganolbwyntiwn ar apelio i galonnau a meddyliau gyda chynhwysiant gwir a gwerthfawr o brofiad bywyd pobl. Fe wnawn annog drwy gyfrwng atebion ymarferol, datblygiadau polisi ac arloesedd rhyngwladol. Fe wnawn gryfhau ein gwaith o arwain agweddau a'n marchnata a helpu aelodau i ehangu eu neges cydraddoldeb.

Cynyddu ein cysylltiad ag aelodau

Fe wnawn gynyddu ein cysylltiad ag aelodau ym mhob cwr o Gymru i sicrhau ein bod yn eu cynorthwyo gyda'u hanghenion, yn cydgynhyrchu syniadau gwych a chreu cyfleoedd i lywio a dylanwadu ar ein gwaith. Byddwn yn ehangu ein hymgysylltiad a'r hyn a gynhigiwn i awdurdodau lleol.

Ymwreiddio profiadau bywyd yn ein gwaith

Byddwn yn chwilio am, yn gwrando ar, yn gwerthfawrogi ac yn gweithredu ar wybodaeth a phrofiad y rhai a effeithir arnynt yn uniongyrchol gan anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Fe wnawn roi llwyfan i'r rhai sydd â phrofiad bywyd, cydgynhyrchu atebion a chysylltu cymunedau â phartneriaid i sbarduno gwelliannau yn narpariaeth gwasanaethau a chanlyniadau, a meithrin cyfleoedd ar gyfer adborth uniongyrchol.

CYNRYCHIOLI'R NEWID

Trech gweithred na gair. Rydym nid yn unig yn dylanwadu ar eraill i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – credwn ei bod yn bwysig inni ein herio ni'n hunain hefyd. Fel elusen, defnyddiwn ein hadnoddau'n ddoeth a dangoswn egwyddorion llywodraethu da, gan adeiladu ar sylfeini cryfion i wella mwy fyth ar ein henw da. Dros y 5 mlynedd nesaf, byddwn yn:

Arwain drwy esiampl

Sicrhau bod yr hyn a ofynnwn gan eraill yn cael ei adlewyrchu o fewn Tai Pawb, ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n hymddygiad. Mae hyn yn cynnwys ein llywodraethu, adnoddau dynol, amrywiaeth, effaith amgylcheddol a'n cyfraniad ehangach i gymdeithas.

Dod yn fwy ystwyth a myfyriol

Fe wnawn adolygu ystwythder ein strategaeth, strwythur, prosesau, pobl a thechnoleg a chynnwys egwyddorion ystwyth yn ein datblygiad sefydliadol parhaus. Fe wnawn greu mwy o le i edrych tua'r gorwel ac i fyfyrio. Fe wnawn ddatblygu ein ffocws ar lesiant a symbyliad ein tîm a gwella ein ffordd o fesur a chyfleu'r effaith a gawn.

Meithrin partneriaethau newydd a rhai presennol

Fe geisiwn gydweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid a chydgynhyrchu heriau ac atebion i sicrhau cyrhaeddiad a newid cadarnhaol mor eang â phosibl.

Tyfu ein capasiti i gyflawni

Fe wnawn ganolbwyntio ar fwyhau ein capasiti i gyflawni ein cenhadaeth a'n gweledigaeth drwy roi cynllun busnes cadarn ar waith a'i addasu'n barhaus, gan amrywio ein ffrydiau incwm ar yr un pryd. Mudiad bach a phenderfynol ydym, ac fe ganolbwyntiwn ein hymdrechion ar y meysydd y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf ynddynt.

tai pawb

HOUSING FOR ALL

Cwmni cyfyngedig drwy warant | 5282554

Elusen gofrestredig| 1110078

Gyda chefnogaeth gan

COMIC RELIEF

OAK FOUNDATION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ac haelodau Tai Pawb

02921 057 957

www.taipawb.org

@taipawb

@taipawb

Tai Pawb